

1.3 Statws yng Ngwynedd⁶

Amcangyfrifir bod Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri rhyngddynt yn cynnwys bron 40% o laswelltir sych asid yr iseldir dros Gymru gyfan, a hynny ar ddwysedd gweddol uchel sef ychydig dros 5 ha/km². Yma mae'r cynefin yn parhau i fod gan mwyaf o gwmpas cyrion yr ucheldir, a chofnodwyd bod 4800 ha yng Ngwynedd (12% o gyfanswm Cymru gyfan), ac o'r mesur hwn mae 28% heb ei wella (mae'r ffigurau hyn yn cynnwys hanner y gorchudd cymysg o laswelltir sych asid yr iseldir a rhostir)³. Mae glaswelltir sych asid yr iseldir ar hyd arfordir Penrhyn Llŷn hefyd yn gynefin bwydo arbennig o bwysig i'r frân goesgoch.

2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y CYNEFIN HWN YNG NGWYNEDD

- Gwelliannau amaethyddol trwy drin tir, ail hadu, rhoi gwrtaith a / neu galch i'r tir
- Defnyddio chwynladdwyr a phla laddwyr eraill.
- Rheolaeth wael a than-bori, yn arwain at dyfiant bras ac yn annog eithin a drain i ymsefydlu.
- Problemau mewn rhai mannau oherwydd gor-bori, weithiau mae bwydo porthiant ychwanegol i stoc yn gallu achosi niwed i'r borfa mewn rhai mannau.
- Coedwigo, yn arbennig gyda choed meddal ar bridd ysgafn, tywodlyd.
- Datblygiadau megis cloddio mwynau a chwareli, adeiladu ffyrdd, tai a thirlenwi.
- Mae awgrym bod llygriad atmosfferig a newid yn yr hinsawdd yn cael effaith niweidiol, er na chafodd yr effaith hon ei asesu yn llawn eto.

3. CGRH / CCG PERTHNASOL YNG NGWYNEDD

Cloddiau, Rhostir yr iseldir, Gwrychoedd, Porfa rhos

Ystlumod, Brân Goesgoch, Cornchwiglen, Adar tir y fferm, Troellwr, Gwiber, Ysgyfarnog, Gwenyn, Pryf lladd, Capiau cŵyr.

4. GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Mae'r ardaloedd pwysicaf o laswelltir sych asid yr iseldir wedi eu cynnwys o fewn SoDdGAs ac hefyd o fewn ardaloedd a glustnodwyd fel rhai a allai fod yn Safleoedd Bywyd Gwyllt.
- Mae'r ardaloedd lle ceir glaswelltir sych asid yr iseldir wedi eu diogelu gan y Rheoliadau Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd (AEA) ar gyfer Tir sydd heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-Naturiol.

⁶ Yn y ddogfen hon mae'r term "Gwynedd" yn cyfeirio at ardaloedd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, heblaw lle nodir yn wahanol.

⁹ Canolbwyntio ymdrechion ar y mathau prinaf o lystyfiant yn enwedig lle mae'r rhain yn cynrychioli lleiniau cymharol eu maint ac yn rhan o gynefin lled-naturiol. Dylid hefyd rhoi blaenoriaeth i enghreifftiau o'r mathau mwyaf cyffredin nad ydynt ar gyrion yr ucheldir yn enwedig os ydynt yn rhai eang, gan cynnwys elfen flodeuol iseldir bendant, neu'n gymysg gyda llystyfiant sydd heb ei addasu. Dylid rhoi blaenoriaeth cadwraeth hefyd i leiniau sydd yn cynnal rhywogaethau anghyffredin neu rywogaethau sy'n dirywio.

4.2 Rheoli a rhaglenni gweithredu

- Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol megis cynlluniau AAS Llŷn, Tir Cymen, ac yn fwy diweddar Tir Gofal, wedi chwarae rhan flaenllaw o safbwynt creu cymhelliant i gynnal a rheoli'r ardaloedd hynny o laswelltir sych asid yr iseldir
- Mae nifer o brosiectau ymchwil gan sefydliadau nad ydynt ynghlwm wrth y llywodraeth megis y Ganolfan Ecoleg a Heidroleg (gynt ITE) a Phrifysgol Lerpwl, yn cynorthwyo i gynyddu gwybodaeth fiolegol ac ecolegol am y cynefin hwn.

4.3 Arolygon, ymchwil a monitro

- Cychwynwyd Arolwg CCGC Cam II sef Arolwg Cynefinoedd Iseldir Cymru ym 1987 a chwbhawyd ef yn 2004.
- Mae astudiaeth a gwblhawyd ym 1999 er mwyn canfod Safleoedd Bywyd Gwyllt posibl yng Ngwynedd yn dangos bod ardaloedd eang o'r cynefin hwn o fewn y sir.

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU⁹

1. Cynnal a diogelu cynefinoedd glaswelltir sych asid yr iseldir presennol a sicrhau y cânt eu rheoli yn addas yn y tymor hir.
2. Adfer glaswelltir sych asid yr iseldir mewn mannau addas, er mwyn cynyddu tua 3% ar gyfanswm yr arwynebedd o borfa asid sych yr iseldir.

6. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Gweithredu	Partner(iaid) ^h
Polisi a deddfwriaeth		
1	Ystyried datblygu gweithgor ar y cyd gyda APCE er mwyn sicrhau y caiff cynlluniau gweithredu glaswelltir Eryri a Gwynedd eu cyflawni yn effeithiol. TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2006	CG, APCE, Partneriaid perthnasol
2	Trwy'r broses cynllunio, sicrhau bod datblygiadau mewn ardaloedd sensitif yn cydymffurfio â chadwraeth glaswelltir sych asid yr iseldir TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, Partneriaid perthnasol
3	Sicrhau bod pob enghraifft o laswelltir sych asid yr iseldir sydd yn cwrdd â'r meini prawf perthnasol yn cael eu dynodi yn Safleoedd Bywyd Gwyllt. TARGED/AMSERLEN: Cychwyn y broses o ddynodi erbyn 2007	CG, CCGC, YBGCC
4	Sicrhau bod Rheoliadau AEA ar gyfer Tir sydd Heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol yn cael eu gweithredu ar holl ardaloedd glaswelltir sych asid yr iseldir. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	LICC, Partneriaid perthnasol
Rheoli a diogelu rhywogaethau / cynefinoedd		
5	Hyrwyddo a chefnogi cynlluniau grant yn cynnwys Tir Gofal, AAS Llŷn a / neu gytundebau rheoli er mwyn sicrhau y caiff glaswelltir sych asid yr iseldir ei rheoli'n addas a / neu ei hadfer, gan gymryd i ystyriaeth anghenion rhywogaethau a chynefinoedd perthnasol o fewn y CGBLI TARGED/AMSERLEN: Rheolaeth ffafriol ar 50%, Adfer 15ha, erbyn 2015	CCGC, CTG, LICC, UAC, GCFBG Cymru, CG, UCA Cymru
6	Gweithredu PGNG er mwyn sicrhau rheolaeth addas a / neu adfer porfa asid sych yr iseldir. TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2008	CG, Partneriaid perthnasol.
7	Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ddiogelu ac adfer porfa asid sych yr iseldir a rhywogaethau a chynefinoedd CGBLI cysylltiedig mewn unrhyw gynlluniau rheoli neu gynlluniau grant (gan gynnwys CRCC, CGC, Tir Gofal, AAS) trwy gydweithrediad (yn cynnwys ymgynghori a chyflwyno syniadau) rhwng sefydliadau allweddol	CCGC, LICC, CC, CG, YG, YBGCC, CFGA

^h Dangosir y prif bartner ar gyfer y weithgaredd hon mewn print tywyll, gweler adran 7.2 am eglurhâd ar y byrfoddau

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (UCA Cymru)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (YBGGC)

Cymdeithas Frenhinol er Diogelu Adar Cymru (CFDA Cymru)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

Prifysgol Cymru Bangor (PCB)

7.3 Cyfleoedd

Undebau amaethyddol, Perchnogion a rheolwyr tir

8. CYDNABYDDI AETH

Prif awdur: Kate Williamson (CG)

Ymgynghorol: Rod Gritten (APCE), David Stevens (CCGC), Karen Rawlins (CCGC)

Llinluniau: English Nature

9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, AAS: Ardal Amgylcheddol Sensitif, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefinoedd, SoDdGA: Safle o Ddiddorced Gwyddonol Arbennig, CBCN: Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, CGBLI: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, CRCC: Cynllun Rheoli Coetiroedd Cynhenid, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaethau, PGNG: Prosiect Gweithredu Natur Gwynedd, AHNE: Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, AEA: Aseiad Effaith ar yr Amgylchedd.

Fersiwn 1, 2005

¹ Dosbarthiad Grwpiau Bioamrywiaeth y DU - Jackson, D.L. 2000. Cyfarwyddyd ar ddehongli Dosbarthiad Cynefinoedd Eang Bioamrywiaeth (mathau tir a dŵr croyw): Diffiniadau a'r berthynas rhyngddynt â dosbarthiadau eraill o gynefinoedd. Adroddiad JNCC Rhif 307.

² Cynllun gweithredu cynefinoedd porfa asid sych yr iseldir, Grŵp Bioamrywiaeth y DU - Cyfres 2 Cynlluniau Gweithredu. Cyfrol II - cynefinoedd tir a dŵr croyw. 1998.

³ Jones, P.S. et al, 2003. Cynefinoedd Blaenoriaeth Cymru: arweiniad technegol. CCGC.